# NODIADAU ATHRO – FERN HILL

- Mae'r gerdd 'Fern Hill' yn gerdd heriol i CA3. I ddisgyblion iau neu ddarllenwyr llai hyderus, dylid canolbwyntio yn yr uned hon ar ymdeimlo â rhin y gerdd, a ffocysu ar y 2/3 pennill agoriadol er mwyn cael teimlad o naws ac awyrgylch yn ogystal â themâu cyffredinol. I ddisgyblion hŷn, mae'r gerdd yn cynnig cyfle i weithio gyda thestun o fewn grwpiau er mwyn y profiad o ymateb i gerdd fwy astrus, lle mae angen i'r darllenydd drafod ystyron posibl a chyrraedd at ddealltwriaeth bersonol.

- Mae'n bwysig annog disgyblion i archwilio'r gerdd yn bersonol. Eu nod yw ymateb i dechnegau Dylan Thomas o greu effeithiau sain hynod, a gweithio tuag at ddealltwriaeth o themâu megis treigl Amser. Nid dadansoddiad gair am air o bob llinell yw'r ffordd orau o bosib i werthfawrogi'r gerdd.
- Dylai'r disgyblion gael cyfle i ddarllen y gerdd ar lafar, er mwyn 'teimlo' rhin y geiriau.

- Enw ffarm ger Llangain, Caerfyrddin yw Fern Hill, cartref ei fodryb Ann, lle'r arferai Dylan fynd bob haf.

- Cysylltai'r lle ag atgofion hapus am ryddid plentyndod, a hefyd yr ymdeimlad o anfarwoldeb sy'n rhan o brofiad plentyn yn y cyfnod hwnnw.

- Mae hon ymhlith yr enwocaf o'i gerddi, ac mae'r fersiwn yma gan T. James Jones_yn crisialu naws y lleoliad a theimladau'r bardd i'r dim trwy ddefnyddio technegau delweddu, ailadrodd, cytseinedd, cyfosod ac adeiladu strwythur trwy ddefnyddio A/Ac yn aml.

- Mae'r gerdd yn cyfleu teimlad o hapusrwydd ieuenctid, ac o gysylltu'r amser hwnnw â chreu'r byd ei hun.

- Mae'n defnyddio'r byd naturiol fel ffynhonnell delweddau i gyfleu naws 'euraid' plentyndod a'i hoffter at dde-orllewin Cymru.

- Mae'r gerdd yn enghraifft wych o dechneg Dylan wrth ddefnyddio synau i greu effaith bwerus – cytseinedd, cyflythreniad, odlau, rhythmau'n cael eu hailadrodd, patrwm sillafau, geiriau'n cael eu gwrthgyferbynnu.

- Mae dros 200 fersiwn o'r gerdd hon. Bob tro byddai Dylan yn gwneud camgymeriad byddai'n gwneud y newidiad, yna'n copïo'r cyfan allan eto. Dyma ei dull o 'gadw'r gerdd ynghyd', fel ei bod yn tyfu ac ailffurfio'n organig bron, gan gasglu ynghyd batrymau a seiniau newydd.

- Mae'r gerdd yn llawn teimlad o oleuni, trwy'r defnydd o edefyn geiriol sy'n cynnwys geiriau megis, serennog, euraid, goleuni, haul, gwyn, golau, awyr las, lleuad.

- Mae geiriau fel glas a gwyn yn awgrymu purdeb ieuenctid, ac euraid yn awgrymu gwerth a chyfoeth profiadau.

## PENNILL 1

- Mae'r gerdd yn gosod naws y lle ar y fferm, a pha mor hapus oedd y bardd fel crwtyn ifanc. Roedd bywyd yn 'rhwydd'. Roedd y tŷ yn 'seinber' - gair cyfansawdd sy'n cyfleu ei fod yn llawn o synau hapus, pur. Mae argraff o harddwch yn y pennill - seinber, glesni'r borfa, nos serennog, afonydd y goleuni.

- Roedd yn teimlo'n anfeidrol. Roedd Amser yn goddef iddo ddringo'n 'euraid' - fel petai wedi ei ddal mewn cyfnod disglair, bendigedig.

    - Teimlai fel tywysog; roedd ganddo 'urddas'. Roedd fel petai yn gallu gofyn i'r coed a'r blodau a'r cnydau lifeirio gyda'i gilydd drwy haul diwedd yr haf.

    - Mae'r cymal 'un tro dan amser' yn swnio fel dechreuad stori ddigwyddodd cyn i amser ddechrau – bron fel petai yn amhosibl o bell yn ôl.

## PENNILL 2

- Mae hwn yn dilyn patrwm tebyg iawn i bennill 1 o ran strwythur ac ailadrodd.

- Y bardd yw canolbwynt ei fyd ei hunan – 'yn rhywun ymhlith ysguboriau'.

- Cawn argraff o adeiladau'r ffarm, gan wreiddio'r gerdd ym mhrofiad dydd-i-ddydd y bardd.

- Wrth ddweud bod yr haul yn ifanc 'ond unwaith' mae'n cyfleu bod disgleirdeb plentyndod yn rhywbeth sy'n diflannu gydag amser. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd gwerthfawr hyn, mae fel petai Amser yn sefyll yn llonydd a chaniatáu iddo deimlo na fydd dim yn newid.

- Roedd fel petai wedi ei eni o'r newydd yn ei ddychymyg, ac yn chwarae yn ei ddychymyg – 'rown i'n heliwr a chowman'.

- Mae enw creaduriaid yn ei roi yng nghanol y bywyd gwledig.

- Mae ‘atseiniai’r Saboth dioglyd’ yn awgrymu bod amser yn pasio’n araf ym myd natur, neu gallai awgrymu bod seiniau’r nentydd yn sanctaidd iddo. Mae’r byd naturiol yn teimlo’n gysegredig iddo.

## PENNILL 3

- Mae ‘amser ar redeg’ fel dweud ‘drwy’r dydd’, ond mae’n personoli'r haul mewn delwedd weledol fanylach.

- Mae pentyrru delweddau yn cyfrannu at hapusrwydd a llawnder y disgrifiad, ac mae ailadrodd ‘hyfryd’ yn ategu hyn.

- Mae ‘alawon yn codi o’r simneiau’ yn awgrymu bod y mwg yn edrych fel cerddoriaeth yn dod allan o’r simneiau, neu fod sŵn gwynt yn y simneiau fel alawon.

- Mae Dylan Thomas a James Jones yn rhestru geiriau, gan ganiatáu iddyn nhw orffwys a churo yn erbyn ei gilydd - ‘ddyfrllyd hyfryd, ffyrniced â phorfa, beunos dan y sêr syml, gan eu cysylltu ag ‘A’ er mwyn adeiladu teimlad.

- Mae sŵn y gwdihŵs yn awgrymu seiniau’r nos yn agor allan, gan greu naws o ddirgelwch a’r dydd yn mynd rhagddo.

- Mae T. James Jones yn defnyddio’r gair tafodieithol i ogledd sir Gaerfyrddin ‘brochgáwn’ sef brasgamu, bwrw allan. Mae hyn yn cysylltu â’r ferf ‘rhedeg’ yn y llinell gyntaf, gan gadw’r teimlad o symudiad yn y pennill - ategir hyn gan ‘ar wib’ a ‘tasgu’.

## PENNILL 4

- Mae’r pennill hwn yn dechrau diwrnod arall, ac mae’r naws yn newid

- Mae’r ffarm yn cael ei phersonoli fel ‘crwydryn gwyn’, yn ffres yn y gwlith. Mae’r ceiliog ar ei ysgwydd yn ddelwedd bore bach o fywyd y ffarm – mae’r byd naturiol yn deffro.

- Wrth alw’r deffro yma fel ‘Adda a’i forwyn’, mae fel petai'r bardd yn cyfleu bod Fern Hill yn baradwys.

- Mae T. James Jones yn cyfleu gwawrio newydd gyda ‘a phelennodd yr haul yr union ddiwrnod hwnnw’, ac yn teimlo cysylltiad gyda gwawr y cread newydd cyntaf un - ar ôl geni’r golau syml yn y lle chwyrliog cyntaf’.

- Mae'n cynnal edefyn geiriol crefydd trwy sôn am y ceffylau yn dod allan o'u stablau i'r 'meysydd mawl.'

## PENNILL 5

- Mae'n parhau gyda disgrifiad o'i hapusrwydd ymhlith yr anifeiliaid, yn 'anrhydeddus.'
- Mae teimlad o newydd-deb - 'cymylau newydd-anedig', 'haul ganedig drachefn a thrachefn' - fel petai pob dydd yn ddechreuad newydd yn ei blentyndod.
- Mae'n parhau i weld ei hun yn rhydd – 'heb fecso (poeni) dim', 'rhedwn yn ddihidans.'
- Mae'n dweud sut nad oedd yn poeni bryd hynny bod cyfnod plentyndod mor fyr, a bod plantos 'ir ac euraid' yn mynd i dyfu'n hen a gadael y cyfan o'u hôl.
- Mae'r pennill yn newid y naws, o'r hapusrwydd mawr yn y 3 pennill cyntaf i werthfawrogiad gwawr newydd ac yna i sylweddoliad bod amser yn cerdded i bawb.

## PENNILL 6

- Mae'n agor gydag ailadrodd - 'heb fecso dim yn y dyddiau gwyn fel ŵyn' - mae dyddiau plentyndod yn bur a diniwed.
- Nid yw'n poeni y bydd Amser yn cydio ynddo a mynd ag e allan o'r goleuni – hynny yw, mynd yn hen. Mae geiriau fel 'cysgod' a 'lleuad' yn awgrymu symud i ffwrdd o'r goleuni.
- Ond eto, yn y pennill hwn, mae'n awgrymu ei fod yn gwybod y bydd Amser yn mynd ag e gerfydd ei law ac y bydd yn deffro i fyd di-blant. Hynny yw, bydd yna heneiddio.
- Mae'r llinellau clo yn enwog iawn. Mae ailadrodd llinellau o'r pennill cyntaf yn creu argraff o gadwyn.
- Mae'r gair 'cadwyni' yn y llinell olaf yn ategu hyn.
- Pan oedd yn Fern Hill, mae'n gwybod ei fod yn 'ir' – hynny yw yn egin gwyrdd, ifanc, yn anfeidrol yn ei lygaid ei hunan, ac eto'n 'farwol ' roedd hedyn henaint a marwolaeth ynddo hyd yn oed bryd hynny.

- Fodd bynnag, mae'r llinell olaf yn swnio'n bositif trwy gyfosod geiriau gwrthgyferbyniol - canu, sy'n awgrymu llonder, a 'cadwyni' sy'n awgrymu caethiwed. Mae fel y môr (sef ffynhonnell llawer o ddelweddau sy'n gysylltiedig â bywyd a marwolaeth yng ngwaith Dylan Thomas), sydd yn rhydd a digyfnewid, ac eto'n gaeth i hualau Amser.